Luisa Munro-Morris
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Dyddiad:** 04 Rhagfyr 2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â Gwasanaethau Oedolion Blaenau Gwent**

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein hymweliad archwiliad gwelliant â gwasanaethau oedolion ag anabledd dysgu Blaenau Gwent, rhwng 06 a 08 Hydref 2025.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf'); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a pherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol hynny. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Cynhaliwyd yr archwiliad gwelliant hwn er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed i wella'r meysydd a nodwyd yn ein harchwiliad sicrwydd ym mis Mawrth 2024. Gweler canfyddiadau ein harchwiliad gwelliant isod:

| **Egwyddor** | **Meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein harchwiliad sicrwydd ym mis Mawrth 2024** | **Cynnydd a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwelliant hwn** |
|---|---|---|
| Pobl | **Taliadau Uniongyrchol**<br>Sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig i bobl yn gyson, a bod gwybodaeth ddigonol ar gael i'w galluogi i wneud | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniadau ar sail gwybodaeth a chofnodi'r rheswm dros unrhyw achos o wrthod taliad. | camau pellach. |
| Pobl | **Cefnogi Gofalwyr**<br>Sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau cymunedol sydd ar gael iddynt. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Pobl | **Hygyrchedd Gwybodaeth a Chyswllt â'r awdurdod lleol**<br>Helpu ymarferwyr i gynnig gwybodaeth hygyrch i bobl yn gyson, er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u hymgysylltiad.<br><br>Adolygu'r trefniadau er mwyn osgoi, lle y bo'n bosibl, yr angen i bobl ailadrodd eu stori a sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| Pobl | **Sicrhau Ansawdd**<br>Dangos tystiolaeth o drefniadau goruchwylio'r tîm rheoli a'r prosesau sicrhau ansawdd yn y cofnodion gofal cymdeithasol.<br><br>Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n blaenoriaethu diogelwch, ymateb i bryderon a pharhau i wella'r fframwaith diogelu. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| Pobl | **Ymgysylltu â Phobl**<br>Cryfhau cyfleoedd i wrando ar farn pobl. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| Atal | **Cynllunio ac adolygu Gofal a Chymorth**<br>Ymgysylltu â phobl a gofalwr yn rhagweithiol i gynllunio ar gyfer sefyllfaoedd brys.<br><br>Adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y ddarpariaeth briodol. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Atal | **Cyfleoedd seiliedig ar Waith a Chyfleoedd Gwirfoddol** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau bod digon o gyfleoedd lleol ar gael i bobl ag anabledd dysgu. | cymryd camau pellach |
| Partneriaeth | **Cydweithio ac integreiddio â'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI)**<br>Gweithio gyda'r BILI i sicrhau dealltwriaeth glir o'r rolau a'r cyfrifoldebau a bod cymorth Therapi Galwedigaethol priodol ar gael i bobl mewn modd amserol.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â'r BILI i adolygu systemau, prosesau a strwythurau er mwyn gwella'r broses ymgorffori a rhannu gwybodaeth.<br><br>Defnyddio cynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig er mwyn llywio proses barhaus yr awdurdod lleol o gynllunio a nodi meysydd â blaenoriaeth i bobl ag anableddau dysgu. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | **Ymgorffori ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau**<br>Datblygu canllawiau ar gyfer dogfennaeth sydd wedi'u llywio gan ddulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>Sicrhau bod barn pobl a'u teuluoedd yn amlwg, lle y bo'n briodol, yn ystod y broses ddiogelu. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| Llesiant | **Amseroldeb ymholiadau diogelu**<br>Sicrhau bod ymarferwyr a phartneriaid yn deall eu rolau a'r amserlenni mewn perthynas â diogelu pobl a gweithio mewn partneriaeth yn glir. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |

## 2. Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau

2.1 Mae rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl diffinio meintiau yn Atodiad 2.

## 3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Archwiliad Gwelliant

3.1 Mae gweithlu'r gwasanaethau oedolion yn angerddol ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau a gaiff eu cefnogi gan brosesau dysgu a datblygu'n barhaus drwy hyfforddiant, mentora a mentrau myfyrio ar ymarfer.

3.2 Mae prosesau sicrhau ansawdd cryfach wedi gwella prosesau goruchwylio ymarfer ac maent yn helpu i ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, mae cysondeb y cofnodion gofal yn parhau'n amrywiol, a dylid gwella prosesau cyfathrebu â phobl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob unigolyn yn cael cynnig copi o'i gynllun gofal a chymorth.

3.3 Mae'r broses o ymgysylltu â phobl yn gwella, a chaiff ei atgyfnerthu gan drefniadau gweithio mewn partneriaeth ac adnoddau effeithiol i gefnogi'r broses gyfathrebu a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff anghenion y gofalwyr eu cydnabod yn amlach, sy'n cynnwys cymorth pontio ar gyfer gofalwyr ifanc wrth iddynt dyfu i fod yn oedolion. Fodd bynnag, mae lleisiau'r gofalwyr a'u hymwybyddiaeth o'u hawliau yn amrywio, ac ni chaiff asesiadau eu cynnig nac arferion eu cofnodi'n gyson.

3.4 Caiff taliadau uniongyrchol eu hyrwyddo'n well, sy'n gwella llais a rheolaeth y bobl, ond mae angen atgyfnerthu'r broses o'u cynnig i bobl a gofalwyr, yn ogystal â chofnodi rhesymau dros wrthod taliadau, yn fwy cyson.

3.5 Mae prosesau cydweithio cryf ar draws timau a phartneriaid mewnol yn sicrhau bod gwasanaethau effeithiol yn cael eu darparu. Mae'r heriau a wynebir mewn perthynas â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth am ofal cymdeithasol, yn effeithio ar ddibynadwyedd ac effeithlonrwydd data. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y materion ac yn cymryd camau mewn ymateb iddynt, gan gynnwys rhoi proses drosglwyddo a gynlluniwyd i system newydd ar waith.

3.6 Gwnaed cynnydd clir mewn perthynas ag ehangu cyfleoedd seiliedig ar waith a chyfleoedd gwirfoddol i bobl. Caiff hyn ei gefnogi gan brosesau cydweithredu strategol â phartneriaid, cyllid grant i lywio mentrau a threfniadau goruchwylio lleoliadau cryfach.

3.7 Mae ffocws ar deithio'n annibynnol a meithrin sgiliau cyflogaeth yn sicrhau llwybrau cyflogaeth i bobl. Bydd archwilio'r amrywiaeth o gyfleoedd a'r heriau cymunedol yn ymarferol yn fwy cyson yn gwella canlyniadau llesiant y bobl ymhellach.

3.8 Mae ymarferwyr yn cydweithio â phartneriaid yn effeithiol i hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl. Mae ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i newidiadau mewn amgylchiadau, gan sicrhau bod y gofal yn cyd-fynd â chanlyniadau a nodwyd y bobl o hyd. Mae anghysondeb o ran amseroldeb yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth ac mae angen atgyfnerthu rhywfaint o'r asesiadau.

3.9 Mae mwy o bwyslais ar gael pobl a'u rhwydweithiau cymorth i gymryd rhan wrth gynllunio gofal, gan gynnwys y trefniadau wrth gefn. Fodd bynnag, mae ansawdd a chysondeb y cynlluniau wrth gefn yn amrywio, a bydd eu gwella ymhellach yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n ddigon cadarn.

3.10 Mae'r prosesau sicrhau ansawdd diogelu wedi cael eu hatgyfnerthu ac yn cael eu goruchwylio'n well ac mae cyfleoedd i rannu'r gwersi a ddysgwyd. Mae ffocws uwch ar gasglu safbwyntiau pobl o ran diogelu, a gaiff ei gefnogi gan adnoddau newydd a hyfforddiant i ymarferwyr.

3.11 Mae newid diwylliannol tuag at ymarfer seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn amlwg. Mae ymarferwyr yn ystyried anghenion y bobl o ran cymorth eirioli, ond gellid cofnodi hyn fel mater o drefn yn amlach ynghyd â'r rhesymeg pan nad oes angen am eiriolaeth. Dylai'r cynnig rhagweithiol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg fod yn fwy amlwg yn y cofnodion.

3.12 Mae'r ymatebion diogelu yn blaenoriaethu risgiau uniongyrchol ac yn elwa ar gydberthnasau amlasiantaethol cryf. Mae angen gwella amseroldeb y cyfarfodydd a chasgliadau ymholiadau er mwyn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel mater o drefn.

3.13 Mae'r awdurdod lleol yn dangos dyheadau arloesol i gydweithio a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae ymarferwyr yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â phobl ac asiantaethau, a cheir enghreifftiau cryf i ddangos bod y trefniadau cydweithio amlasiantaethol yn cefnogi gofal cydgysylltiedig a phrosesau rhannu gwybodaeth effeithiol.

3.14 Caiff y cydberthnasau strategol a gweithredol sydd ar waith â'r BILl eu gwerthfawrogi, ac mae'r trefniadau gweithio integredig yn gwella canlyniadau i bobl. Mae heriau mewn perthynas â llwybrau atgyfeirio at wybodaeth iechyd arbenigol a chynnydd cyfyngedig y cynlluniau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yn nodi bod angen i bartneriaid barhau i gydweithio er mwyn cynnal a gwella cydberthnasau a darpariaeth gwasanaethau integredig.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Pobl**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Mae pwyslais clir ar lesiant staff yn hyrwyddo diwylliant lle mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dengys yr adborth bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n gyson gan gydweithwyr a rheolwyr.

4.2 Mae gweithlu'r gwasanaethau oedolion yn angerddol ac yn ymrwymedig i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl a gofalwyr ym Mlaenau Gwent. Caiff hyn ei gefnogi gan ffocws wedi'i atgyfnerthu ar ddysgu a datblygu'n barhaus. Mae mentrau fel sesiynau melin drafod y grŵp ymarferwyr a mentoriaid ymarfer yn gwella'r cyfleoedd i fyfyrio ar y cyd a datblygu ymarfer.

4.3 Mae prosesau sicrhau ansawdd cryfach ar waith er mwyn goruchwylio ymarfer. Mae hyn yn seiliedig ar fframwaith sicrhau ansawdd diwygiedig ac archwiliadau dysgu sy'n ymgorffori dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae bwrdd sicrhau ansawdd, sy'n cynnwys rheolwyr tîm a rheolwyr gwasanaethau o bob rhan o'r gwasanaethau oedolion, yn goruchwylio'r themâu a'r tueddiadau sy'n codi mewn archwiliadau. Caiff dulliau goruchwylio'r tîm rheoli eu hadlewyrchu yn y cofnodion gofal, ond mae eu cysondeb yn amrywio. Bydd parhau i atgyfnerthu hyn yn gwella prosesau goruchwylio amseroldeb ac ansawdd yr ymarfer ymhellach.

4.4 Mae'r broses o ymgysylltu â phobl ac ymarferwyr yn cael ei hymgorffori yn y prosesau sicrhau ansawdd, sy'n seiliedig ar strategaeth ar gyfer ymgorffori diwylliant hirdymor o wrando, deall ac olrhain. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol, ac yn integreiddio profiadau bywyd pobl yn y prosesau sicrhau ansawdd a dysgu'n barhaus.**

4.5 Mae ffocws strategol ar wella ymgysylltiad wedi atgyfnerthu'r cyfleoedd i bobl ddweud eu dweud. Mae strategaeth ymgysylltu ddiwygiedig ar waith, a gaiff ei chefnogi gan brosesau mentora ymarferwyr a dulliau gwell er mwyn cyfathrebu â phobl am y cyfleoedd i ymgysylltu'n lleol. Er enghraifft, mae digwyddiadau creadigol ‘Hacathon’ ar y cyd â Pobl yn Gyntaf yn dod â phobl ag anabledd dysgu ynghyd i rannu profiadau drwy gelf, cerddoriaeth a gweithgareddau eraill. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ddefnyddio adborth o'r digwyddiadau hyn i lywio'r ddarpariaeth gwasanaeth. **Mae hyn yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol, ac yn cefnogi trefniadau cydweithio effeithiol â phobl a phartneriaid i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl er mwyn helpu i lywio gwasanaethau.**

4.6 Mae'r broses o gyflwyno adnoddau cyfathrebu hygyrch ar gyfer ymarferwyr, (adnoddau ‘Widgit’) a gaiff ei hategu gan hyfforddiant, yn galluogi ymarferwyr i greu deunyddiau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth pobl o'u gofal a'u cymorth ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys wrth ymdrin â'r rhain. Mae'r awdurdod lleol yn archwilio sut y gellir ehangu'r dull hwn i bob rhan o'r gwasanaethau oedolion.

4.7 Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â thimau a phartneriaid mewnol. Mae ymarferwyr a therapyddion galwedigaethol yn ymweld â phobl gyda'i gilydd; ac mae swyddogion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn ymwneud â'r achos hyd nes na fydd angen eu cymorth mwyach er mwyn sicrhau parhad. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth ddidrafferth ac yn lleihau'r angen i bobl ailadrodd eu straeon.

4.8 Mae ymrwymiad strategol clir i wella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr. Mae ymarferwyr yn cydnabod rôl bwysig gofalwyr ac yn gweithio ar y cyd â nhw a phartneriaid. Mae gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi pan fo'u cyfraniadau'n cael eu cydnabod. Gwneir mwy o ymdrech i wella'r cyfle i ofalwyr ddweud eu dweud a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael. Mae ychwanegu gweithiwr cymorth i ofalwyr 18-25 oed, ochr yn ochr â gweithwyr cymorth i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion, wedi gwella'r cymorth pontio. Defnyddir cyllid grant yn greadigol i gefnogi canlyniadau llesiant gofalwyr hefyd.

4.9 Mae'r ymdrechion i hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn well, a gaiff eu hategu gan hyfforddiant staff a chanllawiau hawdd eu deall, yn gwella dealltwriaeth pobl. Gwelsom enghreifftiau lle roedd taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried yn greadigol. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo parhad staff gofal ar gyfer un person ifanc a oedd yn pontio i wasanaethau oedolion, gydag unigolyn arall yn defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwywyr personol a oedd yn siarad ei ddewis iaith, a oedd yn cefnogi ei lesiant diwylliannol. **Mae archwilio taliadau uniongyrchol mewn ffordd greadigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dangos ymarfer cadarnhaol drwy hyrwyddo rheolaeth a llesiant pobl.**

## Meysydd i'w Gwella

4.10 Gwnaethom nodi enghreifftiau lle nad oedd yn glir a oedd pobl wedi cael cynnig copi o'u Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth neu eu hadolygiad, a gall hyn effeithio ar eu dealltwriaeth o wasanaethau a'u cynnydd tuag at gyflawni eu canlyniadau. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod pob unigolyn a/neu ofalwr yn cael cynnig copi o'i Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a'i ddarparu pan fo angen.**

4.11 Mae ymrwymiad clir i gefnogi gofalwyr, ond roedd rhywfaint ohonynt yn teimlo nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed bob amser. Mae ymwybyddiaeth o'u hawl i gael asesiad a'u profiadau o'r cymorth sydd ar gael yn amrywio. Ceir tystiolaeth gymysg o'r asesiadau a gaiff eu cynnig i ofalwyr, ac o ansawdd yr asesiadau hynny. Nid yw'r dewisiadau ar gyfer cynnal asesiadau ar wahân neu ar y cyd â'r person sy'n cael gofal yn cael eu cofnodi'n glir bob amser, sy'n nodi'r angen i wella arferion cofnodi a chydlyniant gweithredol. **Rhaid i'r**

**awdurdod lleol sicrhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion fel mater o drefn, naill ai ar wahân neu ar y cyd, yn unol â'u dewisiadau.**

4.12 Er ein bod yn cydnabod yr enghreifftiau cadarnhaol o daliadau uniongyrchol a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, nid yw'r taliadau uniongyrchol hyn yn cael eu cynnig i bobl yn gyson o hyd, ac nid yw'r rhesymau dros wrthod y rhain yn cael eu cofnodi'n effeithiol bob amser. Gall heriau o ran recriwtio cynorthwywyr personol leihau effeithiolrwydd y taliadau uniongyrchol i bobl hefyd. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n gweithio i fireinio ei brosesau taliadau uniongyrchol, gan gynnwys gwella'r broses o recriwtio cynorthwywyr personol a chymorth parhaus. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu'r cynnydd a wneir drwy wella cysondeb wrth gynnig taliadau uniongyrchol i bobl a gofalwyr, a dogfennu achosion o wrthod taliadau uniongyrchol yn glir.**

4.13 Nododd ymarferwyr heriau parhaus o ran System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n effeithio ar fynediad at gofnodion, effeithlonrwydd o ran amser, a dibynadwyedd data. Mae arweinwyr yn cydnabod yr heriau ac yn gweithio ar ddatrysiad i wella'r broses o ddilysu data a sicrhau ansawdd. Mae paratoadau ar waith i newid i ddefnyddio system newydd yn 2026, sydd â'r nod o wella defnyddioldeb data a'r broses casglu data. **Dylai'r awdurdod lleol roi prosesau goruchwylio trylwyr ar waith i sicrhau bod data dibynadwy o ansawdd ar gael a pharhau i ymgysylltu â'r gweithlu i sicrhau y gellir trosglwyddo i ddefnyddio'r system newydd yn ddidrafferth.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.14 Gwnaed cynnydd clir mewn perthynas ag ehangu cyfleoedd seiliedig ar waith a chyfleoedd gwirfoddol i bobl ag anabledd dysgu. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn dangos ymrwymiad strategol a rennir i wella llwybrau cyflogaeth. Mae cyllid Trailblazer yn sicrhau y gellir datblygu prosiect cyflogaeth wedi'i gefnogi lle mae'r cydlyniant, y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r fframweithiau strwythurol yn well. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n archwilio opsiynau cyllido hirdymor er mwyn cynnal y cynnydd hwn.

4.15 Mae'r broses o oruchwylio hyfforddiant, gwaith, a lleoliadau gwirfoddol y mae pobl yn gysylltiedig â nhw wedi gwella, sy'n sicrhau bod y cynnydd yn cael ei fonitro'n well. Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau ar waith i gyflwyno ap hawdd ei ddeall a fydd yn rhoi llais a rheolaeth well i bobl wrth gofnodi eu taith, gan helpu'r rhai sy'n ymwneud â'u gofal i fonitro eu cynnydd yn fwy effeithiol hefyd. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'r cynnydd cadarnhaol hwn wrth fonitro ansawdd, cynaliadwyedd a chanlyniadau hirdymor lleoliadau.**

4.16 Caiff cynnydd pobl tuag at leoliadau gwaith a lleoliadau gwirfoddol ei gefnogi gan fentrau sy'n datblygu teithio'n annibynnol a meithrin sgiliau cyflogaeth. Mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector, yn ehangu'r cymorth hwn i unigolion sy'n gadael yr ysgol. Ceir enghreifftiau cadarnhaol i ddangos bod pobl yn defnyddio lleoliadau sy'n bodloni eu canlyniadau personol. Er enghraifft, datblygodd unigolyn o rôl wirfoddol i rôl â thâl yn yr un lleoliad. Cafodd unigolyn arall gymorth i feithrin ei sgiliau ar gyfer cyfweliad a alluogodd iddo gael cyflogaeth â thâl yn llwyddiannus. **Mae'r rhain yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol, ac yn dangos sut mae cymorth wedi'i deilwra yn galluogi pobl i gyflawni eu dyheadau.**

4.17 Mae mwy o bwyslais fwy ar gael pobl a'r rhai yn eu rhwydweithiau cymorth i gymryd rhan wrth gynllunio gofal a chymorth, gan gynnwys y trefniadau wrth gefn. Mae ymarferwyr yn ymdrin â'r sgyrsiau hyn â sensitifrwydd a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'r rhan fwyaf o bobl.

4.18 Mae ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i newidiadau yn amgylchiadau pobl, gan helpu i sicrhau bod gofal a chymorth yn cyd-fynd â chanlyniadau pobl. Gwelsom enghreifftiau o'r addasiadau amserol a wnaed i Gynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth pobl, ar y cyd â nhw a phartneriaid. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a therapyddion galwedigaethol er mwyn hyrwyddo diogelwch ac annibyniaeth pobl.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.19 Gall amseroldeb cynnal adolygiadau o'r Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth, gan gynnwys yr asesiadau risg ac asesiadau o alluedd meddyliol, amrywio. Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr wrthym fod galluedd a'r galw cynyddol yn effeithio ar gysondeb yr ymarfer.
Mae gan yr awdurdod lleol fesurau ar waith i oruchwylio a blaenoriaethu adolygiadau. Mae prosesau sicrhau ansawdd cryfach wedi cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â niferoedd ychwanegol o staff i helpu i wella cysondeb. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn parhau i ddiwallu anghenion a nodwyd yr unigolyn a/neu'r gofalwr.**

4.20 Er bod enghreifftiau cadarnhaol o'r cynnydd a wnaed, mae'r graddau y mae ymarferwyr yn archwilio'r cyfleoedd cymunedol sydd ar gael yn llawn, a'r rhwystrau posibl i ymgymryd â'r cyfleoedd hyn, yn amrywio. Gall hyn gyfyngu ar ymwybyddiaeth pobl o sut y gallant gyflawni eu canlyniadau personol a lleihau cyfleoedd i hyrwyddo eu cryfderau a'u hannibyniaeth. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio i ddatblygu'r broses o ymgorffori dulliau seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ymarferol er mwyn sicrhau bod gan bobl cymaint o ddewis ac annibyniaeth â phosibl.**

4.21 Mae ansawdd a manylder y wybodaeth a gofnodwyd am y broses o gynllunio wrth gefn yn amrywio. Roedd enghreifftiau o'r wybodaeth a welsom yn canolbwyntio ar gynlluniau hirdymor, ac yn dangos mai ychydig iawn o ystyriaeth a roddir i'r ffordd y byddai canlyniadau llesiant unigolyn yn cael eu cynnal mewn argyfwng. Er ein bod yn cydnabod bod ffocws uwch ar ymgysylltu â phobl a gofalwyr, **dylai'r awdurdod lleol sicrhau cysondeb wrth ddatblygu cynlluniau gofal a chymorth yn rhagweithiol â phobl a'u rhwydweithiau cymorth gan ragweld argyfyngau posibl ac amlinellu ymatebion y cytunwyd arnynt.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

4.22 Mae'r prosesau sicrhau ansawdd diogelu wedi cael eu hatgyfnerthu i flaenoriaethu diogelwch, ymateb i bryderon, ac i gefnogi gwelliant parhaus. Mae sesiynau goruchwylio grŵp, cyfarfodydd sicrhau ansawdd, a sesiynau myfyriol â phartneriaid yn rhoi cipolwg o'r tueddiadau sy'n codi ac yn hyrwyddo'r broses o rannu gwersi a ddysgwyd. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu hyfforddiant ac arweiniad i hyrwyddo dealltwriaeth a rennir o weithdrefnau diogelu a'r disgwyliadau.

4.23 Mae ffocws uwch ar gasglu safbwyntiau pobl fel rhan o'r prosesau diogelu. Caiff hyn ei ategu gan hyfforddiant i ymarferwyr a thrwy ddatblygu adnoddau i gefnogi ymgysylltiadau ystyrlon. Bydd gwella cysondeb wrth gofnodi yn helpu i sicrhau y caiff safbwyntiau pobl eu dogfennu'n glir a'u bod yn cael eu cysylltu â'u canlyniadau llesiant.

4.24 Mae dogfen newydd wedi cael ei datblygu i gefnogi ymarferwyr diogelu sy'n ymgymryd ag ymholiadau adran 126, sy'n seiliedig ar gyfraniad ymarferwyr. Mae hyn yn helpu i gynyddu hyder ymarferwyr ac i wella ansawdd y wybodaeth a gaiff ei chasglu. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol, ac yn dangos dull rhagweithiol o gefnogi ymarferwyr a gwella cysondeb yr ymarfer.**

4.25 Mae'n amlwg bod newid diwylliannol clir wedi bod ar waith wrth ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth ymarfer. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy hyfforddiant, proses fentora, a goruchwyliaeth grŵp ar gyfer y gweithlu. Mae prosesau sicrhau ansawdd cryfach yn helpu i fonitro ansawdd a chysondeb yr ymarfer, ac roedd enghreifftiau da i ddangos bod safbwyntiau, cryfderau a chanlyniadau pobl wedi'u dogfennu. Fodd bynnag, cydnabu y gall cysondeb wrth gofnodi barn pobl amrywio, sy'n nodi bod angen cynnal ymdrechion i ymgorffori'r dulliau hyn.

4.26 Mae ymarferwyr gwybodaeth, cyngor a chymorth, ymarferwyr diogelu a thimau cymunedol yn ystyried anghenion pobl mewn perthynas â chymorth eirioli, sy'n

sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed. Bydd atgyfnerthu'r broses o gofnodi eiriolaeth anffurfiol a dogfennu'r rhesymeg lle nad oes angen am eiriolaeth yn gyson yn gwella eglurder y cofnodion gofal.

**Meysydd i'w Gwella**

4.27 Nid yw cyfarfodydd diogelu a chasgliadau i ymholiadau adran 126 bob amser yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlenni disgwyliedig. Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr wrthym fod oedi o ran cael gwybodaeth gan bartneriaid allweddol yn effeithio ar hyn. Mae cyfarfodydd amlasiantaethol yn helpu i nodi materion a mynd i'r afael â nhw, ac mae rheolwyr yn goruchwylio unrhyw achos o oedi. Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu risgiau uniongyrchol i sicrhau diogelwch pobl, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd brys lle bo angen. Bydd parhau i gydweithio â phartneriaid i nodi a chwalu unrhyw rwystrau yn helpu i atgyfnerthu'r prosesau diogelu amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod arferion diogelu yn cyd-fynd â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson.**

4.28 Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod pobl yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg wedi'i dogfennu yn y cofnodion gofal. Er na wnaethom nodi unrhyw enghreifftiau lle na lwyddodd pobl i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith, gallai diffyg trefn a methu â chynnig yr opsiwn hwn arwain at golli cyfleoedd i gael gwasanaethau yn Gymraeg. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ei ddarparu'n glir i bob unigolyn a gofalwr.**

**Partneriaeth**

**Cryfderau**

4.29 Mae trefniadau ffederal yr awdurdod lleol â Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen yn adlewyrchu ei ddyheadau arloesol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cydweithredol a chynaliadwy ym Mlaenau Gwent. Wrth i newidiadau sefydliadol ddatblygu, bydd cynnal ymgysylltiad agos ag ymarferwyr a phartneriaid, a monitro effaith y newidiadau hyn yn agos, yn allweddol i ymgorffori newidiadau'n effeithiol ac i sicrhau eglurder a dealltwriaeth a rennir.

4.30 Mae ymarferwyr yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â phobl ac asiantaethau partner. Ceir enghreifftiau cryf o gydweithio effeithiol ar draws timau, gwasanaethau statudol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae hyn yn hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth cydgysylltiedig a phrosesau rhannu gwybodaeth.

4.31 Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i feithrin cydberthnasau strategol a gweithredol â'r BILl. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi arbenigedd a

chyfraniadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gwelsom brosesau gweithio integredig effeithiol a oedd yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl. Er enghraifft, roedd cymorth a roddir ar y cyd gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn a'i ddarparwr gofal, yn seiliedig ar gyngor ac arweiniad clir ar y ffordd orau i ddiwallu eu hanghenion.

**Meysydd i'w Gwella**

4.32 Er bod enghreifftiau cadarnhaol o drefniadau gweithio integredig, nododd ymarferwyr bod heriau mynych mewn perthynas â llwybrau atgyfeirio ar gyfer cael gwasanaethau gofal iechyd arbenigol. Mynegodd ymarferwyr a rheolwyr eu bod wedi gwerthfawrogi'r cyfarfodydd amlddisgyblaethol iechyd ac anableddau dysgu roeddent yn bresennol ynddynt yn rheolaidd, ond nodwyd bod angen iddynt bellach ofyn i gael mynd i'r cyfarfodydd hyn. Felly, roedd hyn yn lleihau'r cyfleoedd a oedd ar gael i gydweithio'n integredig a rhannu gwybodaeth. Dywedwyd wrthym fod newidiadau allweddol i'r personél yn y BILI wedi effeithio ar y galluedd i wneud datblygiadau rhanbarthol i bobl ag anabledd dysgu fel rhan o gynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Disgwylir i gynllun newydd y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig, a gaiff ei ddatblygu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen, gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion cydweithredol â'r BILI i gynnal a meithrin cydberthnasau a gwella'r cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau integredig.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 24 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr,

ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 14 o bobl sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 26 o gyflogeion yr awdurdod lleol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, pennaeth y gwasanaeth).
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a phobl.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Ni fu'n rhaid cynnal unrhyw weithgarwch arolygu drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr achlysur hwn am i'r awdurdod lleol ein hysbysu nad oedd y sawl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach yn unig. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## Atodiad 2

### Tabl Diffinio Meintiau

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |